# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Breaksea**

**Cartref Preswyl Breaksea**
**Y Sgwâr**
**Porthcawl**
**CF36 3BW**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Breaksea

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Breaksea Residential Homes Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 08 Awst 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth da gan dîm bach o staff cyson sy'n eu hadnabod yn dda iawn. Caiff cynlluniau personol ac asesiadau risg eu cwblhau a'u hadolygu yn fisol, a'u diweddaru pan fydd anghenion y bobl yn newid. Mae'r rhyngweithio rhwng y bobl a'r staff gofal yn gynnes ac yn gyfeillgar, a chaiff ymwelwyr eu croesawu i'r cartref. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r amgylchedd ac o ran nifer cyffredinol y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a gemau. Mae'r prydau bwyd yn amrywiol ac yn edrych yn flasus, ac mae staff y gegin yn ymateb i anghenion deietegol a dewisiadau'r bobl. Dywed y staff eu bod yn teimlo'n hapus ac yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Maent yn cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf, ar-lein ac wyneb yn wyneb. Mae'r amserlenni domestig a golchi dillad yn cynnal hylendid ac yn rheoli heintiau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn aml ac yn goruchwylio'r digwyddiadau o ddydd i ddydd. Dylai'r wybodaeth a gesglir ganddo gael ei defnyddio fel rhan o'r adroddiadau chwemisol gofynnol ar ansawdd y gofal.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch gan dîm cynnes a chyfeillgar o staff gofal. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y bobl a'r staff gofal yn ystod ein hymweliad. Croesawyd perthnasau'r bobl ac ymwelwyr. Mae staff y gegin yn wybodus am ofynion deietegol y bobl ac yn cynnig dewis o brydau bwyd, ac mae'r gwasanaeth wedi ennill sgôr hylendid bwyd o bump, sy'n 'dda iawn'. Dywedodd un person wrthym ei fod wedi cael *"lovely food, as always".* Mae cyfarpar ar waith i helpu'r bobl i gael cymorth yn gyflym os oes ei angen arnynt, fel matiau synhwyro a chlychau galw yn ystafelloedd gwely'r bobl.

Gall y bobl ddewis ble a sut i dreulio eu diwrnod. Mae dwy lolfa gymunedol ar gael i'r bobl yn ogystal â phreifatrwydd eu hystafelloedd gwely eu hunain. Mae cyfarpar arbenigol a chymhorthion symudedd ar gael i'r rheini sydd eu hangen. Gwnaethom arsylwi ar bobl yn yr ardaloedd cymunedol, ac roeddent yn ymddangos yn gyfforddus ac wedi ymlacio, sy'n awgrymu eu bod yn hapus yn eu hamgylchedd. Mae cydlynydd gweithgareddau newydd wedi cael ei gyflogi, sy'n gweithio yn y gwasanaeth bob dydd yn cynnal gweithgareddau garddio, celf a chrefft a gweithgareddau grŵp gyda phobl sy'n dymuno cymryd rhan. Maent yn gynhwysol ac yn frwdfrydig, a gwelsom y bobl yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfle i ryngweithio ac ymgysylltu ag eraill. Mae trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da. Gwelsom fod yr ardaloedd cymunedol bob amser yn cael eu goruchwylio gan y staff gofal.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. Mae'r staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisi ar waith sy'n manylu ar y canllawiau a'r gweithdrefnau diogelu perthnasol. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o'r broses ar gyfer codi pryderon. Mae'r rheolwr yn ymdrin â phryderon a materion diogelu. Mae'r staff gofal yn destun proses recriwtio drylwyr sy'n sicrhau eu bod yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Caiff y staff eu goruchwylio'n rheolaidd i gefnogi arferion da.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o safon dda yng Nghartref Gofal Breaksea. Ceir tîm bach o staff, sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn meddu ar wybodaeth dda am y bobl maent yn eu cefnogi, eu hanghenion a'u dewisiadau. Rhoddodd y bobl a'u perthnasau adborth da i ni ar y cartref: *“I’m always thankful for them [staff gofal] helping me”*, *“it’s a lovely place here”*, *“any questions we have we go to [rheolwr], they always sort them out for us”*.

Mae'r cynlluniau gofal, yr asesiadau risg ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen er mwyn i'r staff sicrhau bod pob person yn cael y gofal cywir ar yr adeg gywir. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd, ond gallent gynnwys mwy o fanylion am ddigwyddiadau perthnasol a all fod wedi digwydd rhwng pob adolygiad. Caiff cynlluniau wedi'u diweddaru eu llunio pan fydd anghenion gofal yn newid. Mae'r asesiadau risg yn nodi gwendidau'r bobl a'r ymyriadau sydd eu hangen er mwyn lleihau risg. Caiff siartiau ategol a chofnodion dyddiol eu cwblhau drwy gydol y dydd i fonitro agweddau ar ofal dyddiol y bobl. Caiff llyfrau trosglwyddo a dyddiaduron apwyntiadau eu defnyddio ynghyd â threfniadau trosglwyddo llafar er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff gofal yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac yn gallu parhau â thasgau penodol yn ystod sifftiau dilynol.

Gall y bobl gael gafael ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnynt i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda. Gallant adnabod newidiadau yn ymddangosiad y bobl a rhoi gwybod i'r gweithiwr proffesiynol perthnasol amdanynt er mwyn cael cyngor neu gymorth. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys tystiolaeth wedi'i dogfennu o apwyntiadau gyda gweithwyr proffesiynol fel meddygon teulu a nyrsys ardal, yn ogystal ag ymgyngoriadau ag arbenigwyr fel dietegydd neu therapydd lleferydd ac iaith. Caiff meddyginiaeth ei storio'n briodol a'i rhoi'n ddiogel fel y'i rhagnodwyd. Yr uwch-staff gofal sy'n gyfrifol am arferion meddyginiaeth, ac mae'r unigolion hyn yn cael hyfforddiant gloywi yn ogystal ag arsylwadau rheolaidd o ran eu cymhwysedd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r llety yn ymddangos yn gartrefol ac yn gyfforddus ac mae newidiadau wedi'u gwneud i'r décor yn ddiweddar ac mae bath *jacuzzi* newydd wedi'i osod. Mae'r eitemau a oedd yn cael eu storio'n amhriodol yn ystod yr arolygiad diwethaf wedi cael eu symud a'u haildrefnu. Mae'r triniwr gwallt yn parhau i weithio yn un pen o'r lolfa gymdeithasu i breswylwyr, ond dywedodd y staff gofal eu bod yn defnyddio mynedfa wahanol gyda'r bobl fel ei bod yn haws mynd i mewn i'r ystafell. Mae'r cydlynydd gweithgareddau newydd yn gweithio ar yr ardd, gan annog y preswylwyr i dreulio mwy o amser yn yr awyr agored. Mae ystafelloedd y bobl wedi cael eu personoli ac yn cynnwys eu heitemau personol.

Mae rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw, atgyweirio a gwiriadau ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Gwelsom ardystiad diogelwch cyfredol ar gyfer nodweddion diogelwch tân a chyfleustodau fel nwy a thrydan. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith ar gyfer y bobl. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel. Mae'r ardaloedd sy'n cynnwys peryglon neu wybodaeth gyfrinachol wedi'u cloi er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Caiff ymwelwyr eu cyfarch wrth y drws, ac maent yn llofnodi wrth gyrraedd a gadael.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff gofal sy'n cael hyfforddiant a chymorth priodol i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'i ofynion hyfforddiant. Mae gweithwyr gofal newydd yn cwblhau cyfnod sefydlu ac yn cysgodi shifftiau cyn dechrau yn eu rôl. Mae'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol iawn am yr arweinyddiaeth a ddangosir gan y tîm rheoli a'r cymorth y maent yn ei gael ganddo. Gwnaethant ddweud wrthym: *“the staffing levels are good here at the moment, we all get on well, everyone is supportive of each other”*, “*[rheolwr] is very caring, she takes all our questions and makes us feel like we’re being listened to”*, *“we have lots of training, and we can do our QCF (vocational qualification) to move up in our job”*. Cynhelir sesiynau goruchwylio yn rheolaidd ac mae'r rheolwr yn gweithredu polisi drws agored rhwng cyfarfodydd ffurfiol â'r staff. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith mewn perthynas â diogelu, chwythu'r chwiban, rheoli heintiau a meddyginiaeth, os bydd angen canllawiau ychwanegol ar y staff.

Caiff y staff eu recriwtio a'u fetio'n ddiogel ac maent wedi cwblhau'r gwiriadau diogelwch gofynnol (y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) ac wedi'u cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu (Gofal Cymdeithasol Cymru). Mae'r cartref yn cael ei reoli'n dda gan reolwr a dirprwy profiadol. Mae'r rheolwr yn hysbysu'r cyrff rheoleiddio a'r asiantaethau statudol perthnasol yn briodol pan fydd pryderon a digwyddiadau o bwys a allai effeithio ar lesiant yr unigolion sy'n cael gofal. Gwelsom fod y gwasanaeth yn cyfathrebu mewn modd effeithiol, agored a thryloyw. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac mae'r cyfathrebu rhyngddo â'r rheolwr yn dda. Cedwir cofnodion o'r ymweliadau monitro chwarterol ffurfiol, ond dylai'r rhain gael eu defnyddio i lunio'r adroddiad chwemisol ar ansawdd y gofal.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
| --- | --- | --- |
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 44 | Crëwyd rhai peryglon amgylcheddol yn sgil storio eitemau yn amhriodol a'r defnydd o ofod cymunedol. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/08/2024